# Cyfrannu at gynllunio, gweithredu a gwerthuso gweithgareddau hyrwyddo

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gweithio gydag eraill er mwyn cynllunio, gweithredu a gwerthuso gweithgareddau hyrwyddo. Mae'r gallu i gyflwyno gwybodaeth yn fedrus a rhyngweithio gyda'r cyhoedd wrth arddangos sgiliau yn elfen bwysig iawn o'r safon hon.

Er mwyn gweithredu'r safon hon, bydd angen ichi gynnal a chadw iechyd, diogelwch a hylendid ar raddfa uchel trwy gydol eich gwaith. Bydd angen ichi hefyd gynnal ymddangosiad personol proffesiynol ac arddangos sgiliau cyfathrebu effeithiol.

Prif ddeilliannau'r safon hon yw:

1.
cyfrannu at gynllunio a pharatoi gweithgareddau hyrwyddo contribute to the planning and preparation of promotional activities
2.
gweithredu gweithgareddau hyrwyddo implement promotional activities
3.
cymryd rhan yn y broses o werthuso gweithgareddau hyrwyddo

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cyfrannu at gynllunio a pharatoi gweithgareddau hyrwyddo**

*
*

1.
cyflwyno argymhellion i'r person perthnasol am **weithgareddau hyrwyddo** addas ac adnabod y manteision posibl ar gyfer y busnes
2.
adnabod a chytuno **amcanion** penodol, mesuradwy, posib eu cyflawni, realistig, ynghlwm wrth amser a grwpiau targed ar gyfer y gweithgaredd â'r person(au) perthnasol
3.
cytuno ar ofynion ar gyfer y gweithgaredd â phob person perthnasol a hynny mewn digon o fanylder fel y gellir cynllunio'r gwaith
4.
cynhyrchu cynllun y cytunwyd arno sy'n dangos:

4.1 y math o weithgaredd hyrwyddo

**4.2 amcanion** y gweithgaredd **

4.3 swyddogaethau a chyfrifoldebau eraill sy'n cyfranogi

4.4 gofynion adnoddau

4.5 gweithgareddau paratoi a gweithredu

4.6 graddfeydd amser

4.7 cyllideb

4.8 dulliau gwerthuso

1.
cytuno ar gynllun sy'n ystyried unrhyw ofynion cyfreithiol, yn ôl yr angen
2.
sicrhau bod adnoddau ar gael i gyflawni'r amserlen a gynlluniwyd

**Gweithredu gweithgareddau hyrwyddo**

*
*

1.
gweithredu **gweithgareddau hyrwyddo** yn unol â'r cynllun a gytunwyd
2.
addasu **gweithgareddau hyrwyddo**, yn ôl yr angen, mewn ymateb i amgylchiadau sydd wedi newid a neu broblemau
3.
defnyddio adnoddau'n effeithiol drwy gydol y **gweithgareddau hyrwyddo**
4.
cyfathrebu nodweddion a manteision hanfodol cynhyrchion a gwasanaethau i'r grŵp targed
5.
defnyddio dulliau cyfathrebu sy'n addas ar gyfer y math o weithgaredd hyrwyddo sy'n cael ei gynnal
6.
cyflwyno gwybodaeth fesul camau rhesymegol
7.
annog y grŵp targed i ofyn cwestiynau am y gwasanaethau a'r cynhyrchion sy'n cael eu hyrwyddo
8.
ymateb i gwestiynau ac ymholiadau mewn modd sy'n hybu ewyllys da ac sy'n gwella delwedd y salon
9.
annog y grŵp targed yn weithredol i fanteisio ar y gwasanaethau a'r cynhyrchion sy'n cael eu hyrwyddo
10.
clirio cynhyrchion a chyfarpar ar ddiwedd y **gweithgareddau hyrwyddo**, yn ôl yr angen, yn unol â gofynion y lleoliad clear

**Cymryd rhan yn y broses o werthuso gweithgareddau hyrwyddo**

*
*

1.

defnyddio'r dulliau y cytunwyd arnynt yn eich cynllun gweithgaredd hyrwyddo i gael adborth o'r ffynonellau perthnasol

2.

casglu a chofnodi'r wybodaeth a gafwyd o'r adborth gan ddefnyddio fformat a dull cyflwyno eglur

3.

tynnu casgliadau ar effeithiolrwydd y gweithgaredd hyrwyddo o ran cyflawni'r **amcanion** y cytunwyd arnynt

4.

cymryd rhan mewn trafodaethau gan roi crynodeb eglur, wedi'i strwythuro'n dda, o ganlyniadau'r gwerthusiad

5.

argymell gwelliannau ar gyfer unrhyw weithgareddau hyrwyddo sydd i'w cynnal yn y dyfodol yn seiliedig ar ganlyniadau eich gwerthusiad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Cyfrannu at gynllunio a pharatoi gweithgareddau hyrwyddo**

*
*

1.
gofynion ymarferol a chyfyngiadau unrhyw leoliad
2.
gofynion y cytundeb, deddfau a deddfwriaeth lleol allai gyfyngu ar eich gweithgaredd hyrwyddo mewn unrhyw leoliad a ddefnyddir
3.
pwysigrwydd ystyried gofynion iechyd a diogelwch a gofynion cyfreithiol eraill
4.
y dulliau gweithredu iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i unrhyw leoliad y byddwch yn ei ddefnyddio
5.
y peryglon posibl mae'n rhaid i chi eu hystyried wrth weithio mewn unrhyw leoliad
6.
y camau y dylid eu cymryd i leihau peryglon wrth weithio mewn lleoliad allanol
7.
diben a gwerth cynllunio manwl a chywir
8.
y math o ofynion adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo e.e. unigolion, offer a chyfarpar, defnyddiau, amser, lleoliad
9.
sut gall natur y grŵp targed ddylanwadu ar y dewis o weithgaredd hyrwyddo
10.
sut i gyfateb mathau o weithgareddau hyrwyddo gydag amcanion
11.
sut i gyflwyno cynllun ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo
12.
pam ei bod yn bwysig ystyried dulliau gwerthuso yn ystod y cyfnod cynllunio
13.
sut i lunio amcanion CAMPUS: Cyraeddadwy; Amserol; Mesuradwy; Penodol;

Uchelgeisiol; Synhwyrol
14.
pwysigrwydd gweithio yn ôl cyllideb
15.
ble a sut i gael adnoddau
16.
pwysigrwydd diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hyrwyddo yn glir
17.
pwysigrwydd neilltuo swyddogaethau a chyfrifoldebau i gyfateb i lefelau cymhwysedd unigolyn
18.
pwysigrwydd sicrhau ymroddiad a chytundeb unigolyn i ymgymryd â swyddogaeth yn y gweithgaredd hyrwyddo
19.
y mathau o broblemau y gellir eu rhagweld sy'n digwydd a dulliau o'u datrys

*

*

**Gweithredu gweithgareddau hyrwyddo**

1.
nodweddion a manteision y cynhyrchion a/neu'r gwasanaethau sy'n cael eu hyrwyddo
2.
sut i adnabod arwyddion bod rhywun ag awydd prynu a sut i gwblhau'r gwerthiant
3.
y gwahaniaeth rhwng nodweddion cynnyrch neu wasanaeth a manteision cynnyrch neu wasanaeth
4.
sut i deilwra eich cyflwyniad am fanteision cynhyrchion a/neu wasanaethau i gyfarfod ag anghenion a diddordebau unigol
5.
sut a phryd i gymryd rhan mewn trafodaethau
6.
sut i roi cyflwyniad byr gan roi ystyriaeth i amseru, cyflymder, defnyddio'r llais a defnyddio graffeg

7.
dulliau o gyflwyno gwybodaeth e.e. yn ddarluniadol, trwy ddefnyddio graffeg, ar lafar
8.
dulliau o greu effaith weledol
9.
sut a phryd i greu agoriadau er mwyn annog eraill i ofyn cwestiynau
10.
sut i ateb cwestiynau a thrin ymholiadau mewn modd sy'n debygol o gynnal ewyllys da

**Cymryd rhan yn y broses o werthuso gweithgareddau hyrwyddo**

1.
diben gweithgareddau hyrwyddo
2.
elfennau'r gweithgaredd hyrwyddo y dylid eu gwerthuso
3.
y dulliau mwyaf addas o gael adborth ar gyfer y gweithgareddau hyrwyddo yn y detholiad
4.
sut i gasglu, dadansoddi a chrynhoi adborth gwerthuso mewn ffordd eglur a chryno
5.
dulliau addas o fformatio a chynhyrchu adroddiad gwerthuso

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**1. Gweithgareddau hyrwyddo** yw **

1.1 arddangosiadau

1.2 arddangosfeydd

1.3 ymgyrchoedd hysbysebu

**2. Amcanion** yw **

2.1 Gwella delwedd salon

2.2 Cynyddu busnes y salon

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

1. Pwysigrwydd ystyried gofynion iechyd a gofal a gofynion cyfreithiol eraill

1.1 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith **

1.2 Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (*RIDDOR*) **

1.3 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) **

1.4 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) **

1.5 Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario **

1.6 Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (*COSHH*) **

1.7 Rheoliadau Trydan yn y Gweithle **

1.8 Deddf Diogelu'r Amgylchedd

1.9 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

1.10 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Weithwyr)

1.11 Deddf Diogelu Data

1.12 Cyfarwyddebau Amser Gweithio

1.13 Rheoliadau Cynhyrchion Cosmetig

1.14 Deddf Gwerthu Nwyddau

1.15 Deddf Gwerthu o Bell

1.16 Deddf Disgrifiadau Masnachol

1.17 Deddf Diogelu Defnyddwyr

## Gwerthoedd

1. Mae'r **Gwerthoedd Allweddol** canlynol yn tanategu cyflenwi gwasanaethau yn y sector trin gwallt a gwaith barbwr:

1.1 parodrwydd i ddysgu

1.2 cwblhau gwasanaethau mewn amser sy'n fasnachol ymarferol

1.3 bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant fel ei gilydd

1.4 sicrhau bod hylendid a diogelwch personol yn bodloni gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad

1.5 agwedd hyblyg tuag at waith

1.6 gweithiwr tîm

1.7 cynnal a chadw gofal cwsmeriaid

1.8 agwedd gadarnhaol

1.9 moeseg bersonol a phroffesiynol

1.10 y gallu i hunan-reoli

1.11 sgiliau creadigrwydd

1.12 sgiliau cyfathrebu geiriol a chyfathrebu di-eiriau ardderchog

1.13 cynnal a chadw dulliau gweithio effeithiol, hylan a diogel

1.14 cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, y cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr er mwyn defnyddio cyfarpar, defnyddiau a chynhyrchion yn ddiogel

1.15 sgiliau arweinyddol

## Ymddygiadau

1. Mae'r **ymddygiadau** canlynol yn tanategu'r dasg o gyflenwi gwasanaethau yn y sector trin gwallt a gwaith barbwr. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r salon a'r unigolyn fel ei gilydd.

1.1 bodloni safonau ymddygiad y salon

1.2 cyfarch y cleient yn barchus ac mewn ffordd gyfeillgar

1.3 cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddo/iddi deimlo'n werthfawr ac yn barchus

1.4 adnabod a chadarnhau disgwyliadau'r cleient

1.5 trin y cleient mewn ffordd gwrtais a gwasanaethgar ar bob adeg

1.6 rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleient a'i gadw/chadw'n gysurlon

1.7 addasu'r ymddygiad er mwyn ymateb yn effeithiol i ymddygiad cleientiaid gwahanol

1.8 ymateb yn brydlon i gleient sy'n ceisio cymorth

1.9 dewis y ffordd fwyaf priodol o gyfathrebu gyda'r cleient

1.10 cadarnhau gyda'r cleient eich bod wedi deall ei disgwyliadau /ddisgwyliadau yn llwyr

1.11 ymateb yn brydlon a chadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient

1.12 rhoi amser i'r cleient ystyried yr ymateb a rhoi esboniad pellach pan fydd hynny'n briodol

1.13 dod o hyd i wybodaeth ar fyr dro fydd o gymorth i'r cleient

1.14 rhoi i'r cleient y wybodaeth sydd ei hangen arni/arno am y gwasanaethau neu'r cynhyrchion a gynigir gan y salon

1.15 adnabod gwybodaeth all fod yn gymhleth i'r cleient a gwirio a yw hi/e yn ei deall yn llwyr

1.16 esbonio'n glir wrth y cleientiaid unrhyw resymau pam na ellir cyfarfod â'u hanghenion neu eu disgwyliadau

SKACHB17

Cyfrannu at gynllunio, gweithredu a gwerthuso gweithgareddau hyrwyddo

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2014 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2018 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | SKAH32 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Mentrau mân-werthu a masnachol, Mentrau Gwasanaeth, Galwedigaethau Gwasanaeth Personol, Trinwyr gwallt a Galwedigaethau Cysylltiedig |
| **Cyfres/Set** | Trin gwallt, Trin gwallt a barbro |
| **Geiriau Allweddol** | Cyfrannu; cynllunio; gweithredu; hyrwyddol |